


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

9 Gorffennaf 2019

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 15 GORFFENNAF 2019** am 7:00p.m. Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**
- 6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2019 yn gywir.
- 7. MATERION YN CODI**
- 8. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019.
- 9. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

www.cyngortrefrhuthun.gov.uk / www.ruthintowncouncil.gov.uk

10. DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH A'R CANLLAWIAU CYFATHREBU

Derbyn diweddariad ynghylch yr uchod yn dilyn y trafodaethau ar 8 Gorffennaf 2019.

11. DIWEDDARIAD AM YR HEN LYS

Derbyn diweddariad ynghylch yr Hen Lys, yn dilyn cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.

12. FELODROM GOGLEDD CYMRU

Derbyn diweddariad ynghylch ymholiadau dechreuol p'un ai y gallai Rhuthun gael ei enwebu fel darpar leoliad ar gyfer Felodrom Gogledd Cymru.

13. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD Y PWYLLGOR PWERAU BRYS

Cytuno ar ddyddiad cyfarfod ym mis Awst i ymdrin ag unrhyw faterion cynllunio a chyfrifon i'w talu.

14. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Mehefin 2019.

15. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£192.76
100194	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych	Ffi adnewyddu aelodaeth		£30.00
100195	Bwrdd Benthyciad Gweithiau Cyhoeddus (PWLB)	Taliad benthyciad yr Hen Lys		£3,516.42
100196	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri glaswellt – Gorffennaf		£352.26
100197	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifyddu a chyflogres - Gorffennaf	*	£84.00
100198	Sandra Williams	Ffi anfon arbennig – archwilydd allanol		£7.40
100199	Angle Surveys	Arolwg topograffegol Sgwâr Sant Pedr, rhannau uchaf Stryd y Ffynnon a Stryd y Farchnad ynghyd â chyffyrdd Ffordd Wynnstay, Rhuthun	*	£2,274.00
100200	Clwb Pel-droed Rhuthun	Hysbyseb ar ymyl y cae peldroed yn nhymor 2019/20		£250.00
100201	SLCC Enterprises	Cynhadledd Cymru SLCC, Llandrindod – ffi mynd i'r gynhadledd	*	£96.00
100202	Cyngor Tref Dinbych	Cyfraniad tuag at gostau teithio i Gynhadledd Cymru SLCC yn Llandrindod		£25.35
100203	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – Gorffennaf	*	£180.00
100204	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£354.12
100205	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau dyfrio		£985.00
100206	Smith of Derby	Dod i'r safle yn dilyn hysbysu am nam a thynnu'r pwli ymaith i'w drwsio yn y gweithdy	*	£300.00
100207	Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn cyfarfod chwarterol y Gymdeithas yng Ngheirion, 19.07.19		£32.00
100208	Scottish Power	Ffioedd trydan – Yr Hen Lys		£25.87

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £521.13)

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 25 Medi 2019 am 7.00pm.